# Dan Lynn James

## Ysgoloriaeth Scholarship 2025

### Ysgoloriaeth i fynychu Cwrs Haf Dwys 4 wythnos o 7 Gorffennaf i 1 Awst 2025, a llety yn rhad ac am ddim

**Diben Ysgoloriaeth Dan Lynn James yw rhoi cymorth ariannol i unigolyn sydd am ddysgu neu wella eu Cymraeg a'i defnyddio a'i hyrwyddo yn eu bywyd bob dydd. Eleni mae Dysgu Cymraeg, Prifysgol Aberystwyth, yn cynnig ysgoloriaeth i unigolyn sy'n byw** yng Nghymru ac sydd am fynychu'r Cwrs Haf Cymraeg Dwys yn Aberystwyth am bedair wythnos, ar 7 Gorffennaf i 1 Awst 2025

**Roedd Dan Lynn James, 1929-1993, yn un o'r athrawon mwyaf arloesol ym maes Dysgu Cymraeg yn yr ugeinfed ganrif, a bu'n ddylanwad mawr yng Ngheredigion a ledled Cymru i sefydlu cyrsiau dwys i greu siaradwyr Cymraeg rhugl.**

## Sut i ymgeisio

**Cwblhewch y ffurflen ar lein yma.**

**Dyddiad cau: dydd Gwener 25 Ebrill 2025.**

### A scholarship for a free 4 week Learn Welsh intensive course from 7 July to 1 August 2025, including free accommodation

The Dan Lynn James Scholarship aims to give financial support to an individual who wishes to learn or improve their Welsh and to use and to promote the language in their daily life. This year, Learn Welsh at Aberystwyth University is offering a scholarship for an individual living in Wales who wishes to attend the Intensive Welsh Summer Course in Aberystwyth for four weeks, on 7 July to 1 August 2025.

Dan Lynn James, 1929-1993, was one of the most innovative teachers in the Learn Welsh sector in the twentieth century, and a major influence in Ceredigion and across Wales in establishing intensive courses to create fluent Welsh speakers.

## How to apply

Please complete the online form here.

Closing date: Friday 25 April 2025.







# Meini Prawf Criteria

**Rhaid i chi ddangos tystiolaeth eich bod yn cwrdd â'r meini prawf hyn:**

- **Rydych wedi gwneud ymrwymiad ac ymdrech i ddysgu Cymraeg**
- **Rydych yn ymarfer ac yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson**
- **Mae gyda chi amcanion uchelgeisiol i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg ar ôl cwblhau'r cwrs**
- **Ni fyddech yn gallu cwblhau'r cwrs heb gymorth ariannol yr ysgoloriaeth**

You must show evidence that you meet the following criteria:

- You have made a commitment and an effort to learn Welsh
- You practise and use Welsh regularly
- You have ambitious goals to use and to promote Welsh after completing the course
- You would not be able to complete the course without the financial support offered by the scholarship

## Rheolau ac Amodau

Cynigir ysgoloriaeth i unigolyn sy'n byw yng Nghymru i fynychu Cwrs Haf Cymraeg Dwys Aberystwyth am bedair wythnos, a chwblhau'r cwrs yn llawn. Mae'r ysgoloriaeth yn talu am ffi'r cwrs a llety hunan-ddarpar yn y Brifysgol. Nid yw'r ysgoloriaeth yn cynnwys costau bwyd na the a choffi yn ystod y cwrs.

Bydd Swyddfa Dysgu Cymraeg yn trefnu llety yn y Brifysgol ar ran yr ymgeisydd llwyddiannus. Ni fydd rhaid i chi gysylltu â llety'r Brifysgol.

Ni ellir ystyried unrhyw gais a dderbynnir ar ôl 25 Ebrill 2025.

Bydd penderfyniad y panel yn derfynol. Ni fydd hawl gan berthnasau staff Dysgu Cymraeg, Prifysgol Aberystwyth, i wneud cais. Rhoddir gwybod i'r ymgeisydd llwyddiannus erbyn 2 Mai 2025.

Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus ysgrifennu adroddiad am y cwrs, a chydweithio â Dysgu Cymraeg Prifysgol Aberystwyth i roi cyhoeddusrwydd i'r ysgoloriaeth a chyrsiau Dysgu Cymraeg.

Byddwn yn cynnig lle i'r ymgeisydd lwyddiannus mewn dosbarth ar y lefel o'u dewis. Pe na bai digon i gynnal dosbarth ar y lefel honno, byddwn yn trafod dewisiadau amgen.

## Terms and Conditions

A scholarship is offered to an individual who lives in Wales to attend the 4-week Aberystwyth Intensive Welsh Summer Course, and to complete the full course. The scholarship covers the course fee and self-catering accommodation at the University. The cost of food and tea/coffee during the course is not included.

The Learn Welsh Office will arrange University accommodation on behalf of the successful applicant. You won't need to book direct.

Any application submitted after 25 April 2025 will not be considered.

The decision of the panel will be final. Relatives of Learn Welsh staff at Aberystwyth University, will not be eligible. The successful applicant will be informed of the panel's decision by 2 May 2025.

The successful applicant will be required to write a report about the course and co-operate with us in organising publicity for the scholarship, and other initiatives to promote Learn Welsh courses.

The successful candidate will be offered a place in a class at their chosen level. If there are insufficient numbers for a class at that level, we will discuss alternatives.